Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Healthcare Inspectorate Wales

# Adroddiad Cryno ar yr Arolygiad

## Hosbis Dewi Sant

## Dyddiad yr arolygiad: 21 a 22 Medi 2022
## Dyddiad cyhoeddi: 23 Rhagfyr 2022



Mae'r ddogfen gryno hon yn rhoi trosolwg o ganlyniad yr arolygiad

ISBN Digidol: 978-1-80535-165-8
© Hawlfraint y Goron 2022

Gwelsom fod ansawdd profiad y claf yn dda iawn.

Mynegodd y cleifion a'u perthnasau y gwnaethom siarad â nhw yn ystod yr arolygiad foddhad â'r gofal a'r driniaeth a gafwyd. Dywedodd y cleifion wrthym fod y staff yn garedig ac yn ofalgar. Gwelsom enghreifftiau o ryngweithio da rhwng y staff a'r cleifion, gyda'r staff yn cefnogi'r cleifion mewn ffordd urddasol a pharchus.

Roedd pob rhan o amgylchedd yr hosbis yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda, yn lân ac yn daclus.

Roedd y trefniadau ar gyfer darparu gofal yn ddiogel ac yn effeithiol.

Roedd y staff yn ymrwymedig i ddarparu gofal tosturiol, diogel ac effeithiol i'r cleifion.

Roedd rheolaeth ac arweinyddiaeth dda yn yr hosbis ac roedd y staff yn canmol y cymorth roeddent yn ei gael gan y tîm rheoli.

Mae canfyddiadau'r arolygiad yn ymwneud â'r adeg y cynhaliwyd yr arolygiad.



# Yr hyn a wnaethom

Ceir manylion llawn am y ffordd rydym yn arolygu'r GIG ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru ar ein gwefan.

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Hosbis Dewi Sant, Llandudno ar 21 a 22 Medi 2022.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys  dau Arolygydd AGIC, un adolygydd cymheiriaid clinigol ac un adolygydd profiad cleifion. Arweiniwyd yr arolygiad gan un o Uwch-arolygwyr Gofal Iechyd AGIC.

Mae'r fersiwn gryno hon o'r adroddiad wedi'i chynllunio ar gyfer aelodau'r cyhoedd.

Mae adroddiad llawn, sydd wedi'i gynllunio ar gyfer y lleoliad, ac sy'n disgrifio'r holl ganfyddiadau sy'n ymwneud â darparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol ar gael ar ein gwefan.

# Ansawdd Profiad y Claf

## Crynodeb Cyffredinol

Gwelsom fod ansawdd profiad y claf yn dda iawn.

Gwelsom aelodau o'r staff yn ymdrin â'r cleifion mewn ffordd ddigynnwrf a oedd yn rhoi tawelwch meddwl iddynt.

Roedd pob rhan o amgylchedd yr hosbis yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda, yn lân ac yn daclus.

Mynegodd y cleifion a'u perthnasau y gwnaethom siarad â nhw yn ystod yr arolygiad foddhad â'r gofal a'r driniaeth a gafwyd. Dywedodd y cleifion wrthym fod y staff yn garedig ac yn ofalgar. Gwelsom enghreifftiau o ryngweithio da rhwng y staff a'r cleifion, gyda'r staff yn cefnogi'r cleifion mewn ffordd urddasol a pharchus.

## Nodwyd gennym fod y gwasanaeth hwn yn gwneud y canlynol yn dda

- Amgylchedd glân a chroesawgar wedi'i gynnal a'i gadw'n dda
- Yr ymgysylltu rhwng y staff â'i gilydd, â'r cleifion ac â'u perthnasau
- Y defnydd o wirfoddolwyr
- Y trefniadau ar gyfer cadw gwelyau ar gyfer y cleifion hynny sy'n cael gofal yn y gymuned gan staff Hosbis Dewi Sant Gartref.

# Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

## Crynodeb Cyffredinol

Roedd y trefniadau ar gyfer darparu gofal yn Hosbis Dewi Sant yn ddiogel ac yn effeithiol.

Roedd y staff yn ymrwymedig i ddarparu gofal tosturiol, diogel ac effeithiol i'r cleifion.

Roedd cyfarpar addas ar gael ac yn cael ei ddefnyddio er mwyn helpu i atal y cleifion rhag datblygu briwiau pwyso ac er mwyn atal cleifion rhag cwympo.

Roedd yr hosbis yn lân ac yn daclus, ac roedd trefniadau ar waith i leihau achosion o groes-heintio.

Roedd prosesau ffurfiol ar waith ar gyfer rheoli meddyginiaeth.

Roedd anghenion gofal y cleifion wedi cael eu hasesu gan y staff ac roedd y staff yn monitro'r cleifion er mwyn hyrwyddo eu llesiant a'u diogelwch.

## Nodwyd gennym fod y gwasanaeth hwn yn gwneud y canlynol yn dda

- Dull gweithredu amlddisgyblaethol mewn perthynas ag asesu, cynllunio a darparu gofal
- Darparu gofal cyfannol
- Atal a rheoli heintiau
- Gwasanaeth gofal Hosbis Gartref.

## Lle gallai'r gwasanaeth wella

- Dechrau defnyddio'r broses Sgoriau Rhybudd Cynnar Cenedlaethol (NEWS)[1]
- Rhoi'r Llwybr Sepsis ar waith [2]

---

[1] Mae'r Sgoriau Rhybudd Cynnar Cenedlaethol (NEWS) yn cynnig system ar gyfer sgorio'r mesuriadau ffisiolegol a gaiff eu cofnodi fel arfer wrth ymyl gwely'r claf. Diben y system yw nodi cleifion difrifol wael, gan gynnwys y rheini â sepsis.

2 Mae sepsis yn adwaith i haint sy'n bygwth bywyd. Mae'n digwydd pan fydd eich system imiwnedd yn gorymateb i haint ac yn dechrau niweidio meinweoedd ac organau eich corff. Mae llwybr gofal 'Sepsis

- Rhai agweddau ar hyfforddiant gorfodol
- Cynnal asesiadau Galluedd Meddyliol ar bob claf adeg ei dderbyn
- Adolygu'r meddyginiaethau yn y pecyn anaffylacsis er mwyn sicrhau eu bod yn adlewyrchu canllawiau cyfredol Cyngor Dadebru'r DU.

---

Six' yn rhan o'r dull gweithredu a argymhellir gan Ymddiriedolaeth Sepsis y DU wrth wneud diagnosis o sepsis a'i drin.

# Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

## Crynodeb Cyffredinol

Roedd rheolaeth ac arweinyddiaeth dda yn yr hosbis ac roedd y staff yn canmol y cymorth roeddent yn ei gael gan y tîm rheoli.

Dywedodd y staff wrthym eu bod yn hapus yn eu gwaith a bod diwylliant agored a chefnogol yno.

## Nodwyd gennym fod y gwasanaeth hwn yn gwneud y canlynol yn dda

- Trefniadau goruchwylio da gan y rheolwyr
- Trefniadau ymgysylltu a goruchwylio da gan yr ymddiriedolwyr
- Polisïau a gweithdrefnau
- Cyfathrebu.

## Lle gallai'r gwasanaeth wella

- Arfarniadau'r staff
- Bwrw ati i ddatblygu system rheoli cofnodion electronig
- Ffurfioli'r broses ar gyfer casglu a choladu pryderon a sylwadau
- Diweddaru'r asesiad risg amgylcheddol
- Cyfarfodydd tîm.

# Y camau nesaf

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, cânt eu nodi yn atodiadau'r adroddiad arolygu llawn.

Pan fyddwn yn nodi pryderon sy'n peri risg uniongyrchol i ddiogelwch cleifion, gofynnwn i'r person cofrestredig gymryd camau brys. Caiff y pryderon hyn eu hamlinellu yn yr atodiadau ac maent yn amlinellu'r camau a gymerwyd gan y person cofrestredig i amddiffyn diogelwch cleifion ac sydd wedi'u cymeradwyo gennym ni. Rydym hefyd yn darparu tabl manwl o welliannau a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle byddwn yn gofyn i'r gwasanaeth ddweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i ymdrin â'r meysydd hyn ac i wella ansawdd a diogelwch gwasanaethau gofal iechyd. Yn ogystal, rydym yn amlinellu pryderon a godwyd ac yn cydnabod y rhai a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad.

Ar yr adeg briodol, bydd AGIC yn gofyn i'r person cofrestredig gadarnhau bod camau wedi'u cymryd yn unol ag ymatebion y rheolwyr a ddogfennwyd yn y cynllun gwella. Rydym hefyd yn gofyn i'r person cofrestredig ddarparu tystiolaeth ddogfennol o'r camau a gymerwyd a/neu'r cynnydd a wnaed.

